**Datganiad Busnes Drafft ar gyfer y 3 wythnos nesaf a Phenderfyniadau'r Dirprwy Lywydd ar gyfer 26 Medi 2006**

## Penderfyniadau

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 26 Medi penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

**- The Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2006**

**- The Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006**

**- The Community Care, Services for Carers and Children's Services (Direct Payments) (Wales) Amendment Regulations 2006**

**- The Pollution Prevention and Control (England and Wales) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2006**

**- The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006**

## Y Datganiad Busnes Drafft

**Dydd Mawrth 3 Hydref 2006 a dydd Mercher 4 Hydref 2004**

**Dydd Mawrth 10 Hydref 2006 a dydd Mercher 11 Hydref 2004**

**Dydd Mawrth 17 Hydref a dydd Mercher 18 Hydref 2006**

**<u>Dydd Mawrth 3 Hydref 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (20 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27**
- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27**

Mae angen y ddwy set hyn o Reoliadau er mwyn gweithredu Erthygl 31 'Mynediad at lety' yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2004/83/EC ac er mwyn gweithredu'r rheoliadau sydd ynddi mewn perthynas â dyraniadau awdurdodau lleol a'r cymorth y maent yn ei roi i'r digartref. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn pennu'r rheolau ar gyfer cydnabod ffoaduriaid a'r rheini y mae arnynt angen Amddiffyniad Ategol ac yn manylu ar y statws sy'n cael ei roi i bobl o'r fath. Yn rhinwedd Erthygl 31 o'r Gyfarwyddeb, mae'n rhaid rhoi'r un hawl i'r rheini sy'n cael Amddiffyniad Ategol gael llety â gwladolion eraill o drydydd gwledydd sy'n preswylio'n gyfreithlon yn y DU. Yn y cyd-destun hwn, mae 'llety' yn cynnwys dyraniad o lety tai, a chymorth i'r digartref.

Mae Amddiffyniad Ategol yn gyfystyr â'r categori o ganiatâd a elwir yn Amddiffyniad Dyngarol, sy’n cael ei roi gan y Swyddfa Gartref i geiswyr lloches nad ydynt yn gymwys i gael statws ffoaduriaid ond y byddai eu bywydau mewn perygl neu a fyddai'n dioddef gwir risg o niwed difrifol pe baent yn dychwelyd i'r wladwriaeth y maent yn hanu ohoni. Ar hyn o bryd, mae Amddiffyniad Dyngarol yn fath eithriadol o ganiatâd i aros yn y DU, sy'n cael ei roi y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo. Serch hynny, er mwyn gweithredu'r Gyfarwyddeb yn llawn, mae angen ffurfioli Amddiffyniad Dyngarol drwy ei gynnwys yn y Rheoliadau Dyraniadau a Digartrefedd.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau S•n Amgylcheddol (Cymru) 2006 (20 munud)**

O dan y Rheoliadau hyn, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am baratoi, adolygu, a diwygio mapiau s•n o dan y Gyfarwyddeb S•n Amgylcheddol, ac eithrio'r mapiau hynny sy'n gymwys i s•n o brif feysydd awyr nad ydynt yn ddynodedig (holl feysydd awyr y DU, ar wahân i Heathrow, Gatwick a Stanstead) lle bydd gweithredwyr y meysydd awyr y cyflawni'r swyddogaeth hon. At hynny, bydd y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru lunio, adolygu, a diwygio cynlluniau gweithredu (ac eithrio cynlluniau sy'n gymwys i fannau ger prif feysydd awyr, lle bydd gweithredwyr y meysydd awyr yn cyflawni'r swyddogaeth hon).
Bydd yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol o dan y Gyfarwyddeb S•n Amgylcheddol dros fapio a pharatoi cynlluniau gweithredu ar gyfer ffyrdd, rheilffyrdd a chrynodrefi (ardaloedd trefol di-dor mawr). Mae'r Rheoliadau'n ymdrin hefyd â materion megis nodi prif ffyrdd, prif reilffyrdd a chrynodrefi ac yn pennu pa ddull o weithredu a pha fethodolegau y dylid eu defnyddio, a pha weithdrefnau cyffredinol y dylid eu dilyn, wrth baratoi mapiau s•n a chynlluniau gweithredu.

- **Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru (45 munud)**

- **Dadl am ddiogelwch ar y ffyrdd (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 4 Hydref 2006</u>**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28, ac fel y pennir yn y rhestr o gyfrifoldebau'r Gweinidogion (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 29 (15 munud)**

Mae'r Dyfarniad hwn yn caniatáu i *Eaga Partnership*, sy'n rheoli'r Cynllun

Effeithlonrwydd Ynni Cartref yng Nghymru, i ddefnyddio lefelau diwygiedig o grantiau ar gyfer ceisiadau am fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod aelwydydd cymwys yn gallu cael yr holl fesurau effeithlonrwydd ynni y mae ganddynt yr hawl iddynt, a hynny am ychydig iawn o gost neu heb unrhyw gost o gwbl.

Mae'r Penderfyniad hefyd yn caniatáu i Reolwr y Cynllun ddarparu gwres canolog olew yn yr aelwydydd hynny y bernir eu bod yn 'anodd eu gwresogi'. At ei gilydd, aelwydydd yw'r rhain nad ydynt ar y prif rwydwaith nwy ac nad oeddent, yn y gorffennol, yn gallu cael cymorth o dan y Cynllun.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Dadl am gynnig Lisa Francis o dan Reol Sefydlog 31 (60 munud)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi mewn egwyddor ddeddfwriaeth i:

Ddiwygio Erthygl 10(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995, i:

(a) estyn y diffiniad o Gae Chwarae (*Playing Field*) i gynnwys unrhyw dir yn yr awyr agored a ddefnyddir at ddibenion addysg gorfforol neu hamdden; a

(b) diwygio'r diffiniad o Faes Chwarae (*Playing Pitch*) i ddileu'r maint lleiaf sy'n ofynnol o ran ardal sydd wedi'i diffinio.

- **Y ddadl fer (30 munud)**

## <u>Dydd Mawrth 10 Hydref 2006</u>

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Seilwaith Rheilffyrdd (30 munud)**

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan y Ddeddf Comisiynydd Pobl H•n i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl H•n (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006 (15 munud)**

Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau 1 i 22 o Ddeddf Comisiynydd Pobl H•n (Cymru) 2006. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Swydd Comisiynydd Pobl H•n Cymru ac yn darparu ar ei chyfer. Mae'n darparu ar gyfer Comisiynydd a fydd yn helpu i sicrhau bod buddiannau pobl h•n yng Nghymru yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau penodol i'r Comisiynydd adolygu'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni'u swyddogaethau, ac i adolygu'r trefniadau eirioli, y trefniadau cwyno a'r trefniadau chwythu'r chwiban ar gyfer y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru gan gyrff a restrir a chan ddarparwyr gwasanaethau wedi'u rheoleiddio.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Rheoliadau sy'n rhoi'r p•er i'r Comisiynydd ymchwilio i achosion pobl h•n penodol yng Nghymru, a'r p•er i roi cymorth, gan gynnwys cymorth ariannol, i berson h•n sy'n cwyno am gyrff penodol yng Nghymru, neu sy'n cyflwyno sylwadau iddynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud Rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer penodi'r Comisiynydd, y trefniadau ar gyfer penderfynu am ba hyd y bydd y Comisiynydd yn dal ei swydd, a'r trefniadau ar gyfer adroddiadau'r Comisiynydd i'r Cynulliad. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Cynulliad i gyfarwyddo'r Comisiynydd ynghylch arfer ei bwerau ategol a, chyda chaniatâd y Trysorlys, gyhoeddi Cyfarwyddiadau ynghylch paratoi cyfrifon blynyddol y Comisiynydd.

- **Cynnig i gymeradwyo The Paying Agency (National Assembly for Wales) (Amendment) Regulations 2006 (15 munud)**

Mae'r Paying Agency (National Assembly for Wales) Regulations 1999 (O.S. 1999/2223) yn rhoi'r p•er i Gynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu fel Asiantaeth Dalu mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (y PAC). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio agwedd dechnegol ar Reoliadau 1999, gan ddiweddaru'r Rheoliadau hynny er mwyn cyfeirio at y Rheoliadau Ewropeaidd newydd sy'n rheoli'r PAC. Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod Rheoliadau 1999 yn gwbl gyfoes, gan osgoi unrhyw risg y bydd y Cynulliad yn cael ei herio'n

gyfreithiol wrth iddo arfer ei swyddogaethau fel Asiantaeth Dalu o 16 Hydref 2006 ymlaen.

- **Dadl am Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad am y Mesur Morol (60 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (15 munud)**

**Dydd Mercher 11 Hydref 2006**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon am Bapurau Newydd/Trinity Mirror (30 munud)**

- **Dadl am Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 17 Hydref 2006**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig I gumeradwyo o dan reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **The Pollution Prevention and Control (England and Wales) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

The Pollution Prevention and Control Regulations 2000, (the 2000 Regulations)

implement an integrated environmental approach to the regulation on industrial activity. These proposed amending Regulations are intended to update the regime and make technical changes to ensure that regulators and operators have clarity of purpose in their environmental protection duties.

These Regulations propose four amendments:

- implementation of Petrol Vapour Recovery Stage II Controls (known as PVR II);
- an increase to the penalties for offences committed under the Pollution Prevention and Control Regulations 2000, in line with those in section 105 of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (CNEA);
- to provide that, where a coin-operated dry cleaning machine is to cease operation in October 2007 because it is not possible to comply with the Solvent Emissions Directive, an application for a Pollution Prevention and Control (PPC) permit is not required in the interim; and
- minor technical amendment to Regulations concerning the burning of landfill gas containing halogens.

Ø **The Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2006**
This Order replaces The Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2004, to enable the Agricultural Land Tribunal (Wales) to function at its fullest in determining applications to succeed to tenancy. The Order prescribes units of production (the average value of each farming unit, such as an ewe or each hectare of barley) for the assessment of the productive capacity of agricultural land situated in Wales and sets out the amount, which is to be regarded as the net annual income from each such unit for the years 12 September 2004 to 11 September 2005 and 12 September 2005 to 11 September 2006 inclusive within separate schedules within the Order.

Ø **The Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006**
This Commencement Order will bring into force provisions of the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 relating to relating to a range of measures in respect of (amongst other things) abandoned vehicles, litter, graffiti and statutory nuisances.

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (15 munud )**

- **Cynnig I gymeradwyo The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

The purpose of these Regulations is to introduce revisions to the Housing Renewal Grants Regulations 1996. In line with regular changes there is a need for the Assembly to amend the Regulations covering the test of resources for disabled facilities grants (DFG) to take account of the uprating of allowances and premiums and any relevant changes to the Housing Benefit Regulations during the year. These Regulations will specify allowances and premiums used in the test of resources for disabled facilities grants. The Regulations are also required to reflect the introduction of the Civil Partnership Act 2004.

**Cynnig i gymeradwyo The Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

These Regulations introduce annual revisions to the Housing Renewal Grants Regulations 1996. In line with annual changes, there is a need for the Assembly to amend the Regulations covering the test of resources for Disabled Facilities Grants (DFG) to take account of the uprating of allowances and premiums and any relevant changes to the Housing Benefit Regulations during the year. These Regulations will introduce a revised prescribed form to be used in the test of resources for Disabled Facilities Grants, which will also be amended to reflect the introduction of the Civil Partnership Act 2004.

**Cynnig I gymeradwyo The Youth and Community Work Education and Training (Inspection) (Wales) Regulations 2006 (15 munud)**

These Regulations extend the remit of the Chief Inspector of Education and Training in Wales to include all youth and community work training, which is provided by an institution within the higher education sector in Wales. These Regulations would ensure that all youth and community work training is liable to inspection. The Youth Service in Wales is one of the key partners in the delivery of Youth Support Services for young people aged 11 – 25 in Wales. The Regulations will ensure that the training of key staff within the Youth Service is externally assessed.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (15 munud)**

- **Dadl wedi'i henwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

- **Dadl am Chwaraeon (60 munud)**

**<u>Dydd Mercher 18 Hydref 2006</u>**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**

- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**

- **Cwestiynau i Bwyllgor y T• (5 munud)**

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân (15 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2006**
  This Order implements Commission Regulation (EC) No. 2244/2003 laying down detailed provisions regarding satellite-based Vessel Monitoring Systems. It will aid the enforcement of measures supporting the conservation and sustainable exploitation of fisheries resources by extending the existing provisions relating to the satellite monitoring of fishing vessels to smaller vessels, additionally requiring the provision of course and speed in each report and increasing the security and integrity of data capture and transmission.

  This Order will also revoke The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 and The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 Amendment Regulations 2002.

- **Cynnig I gymeradwyo The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006 under Standing Order 25.2**
  This Scheme provides for the payment of grants to all Welsh registered over fifteen metre vessels, which have had government approved satellite-tracking devices installed on board in Wales.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Dadl am Cynlluniwyd i’w Gyflawni (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**